An older rural population also affects how services are planned and delivered. Rural areas have a higher ratio of older people to working-age people, and this is expected to increase over time. This can make it harder to recruit and sustain health and social care services. Hywel Dda currently has the fourth highest number of NHS Wales staff vacancies, with 966 full-time equivalent vacancies and an 8.5% vacancy rate at 31 December 2025, as shown in the table on page 50.

**Table 8. NHS Wales staff vacancies by organisation, 31 December 2025**

| Organisation | Number of FTE vacancies | Vacancy rate (%) |
|---|---|---|
| All organisations | 5,652 | 5.6 |
| Betsi Cadwaladr | 1,737 | 8.7 |
| Powys | 259 | 10.3 |
| Hywel Dda | 966 | 8.5 |
| Swansea Bay | 696 | 5.2 |
| Cwm Taf Morgannwg | 339 | 2.8 |
| Aneurin Bevan | 223 | 1.6 |
| Cardiff and Vale | 622 | 4 |
| Public Health Wales | 143 | 6.7 |
| Velindre | 59 | 3.4 |
| Welsh Ambulance Services NHS Trust | 277 | 6.2 |
| Health Education and Improvement Wales | 43 | 7.6 |
| Digital Health and Care Wales | 126 | 9.5 |
| NHS Wales Shared Services Partnership | 165 | 6.5 |

Source: NHS staff vacancies by organisation and staff group, StatsWales, Welsh Government.
Available at: NHS staff vacancies by organisation and staff group.

Workforce pressure, long travel distances and rising need can make local access harder to sustain. Recruitment challenges, together with the continuing effects of COVID-19, mean that people in Hywel Dda are waiting longer for some planned care, and the Clinical Services Plan highlights that some services fall short of national standards.

Hospital use also reflects the older population profile. People aged 65–74, 75–84 and 85 and over account for a higher share of hospital activity in Hywel Dda than across Wales. Average bed days are also higher in some specialties, including geriatrics, acute medicine and all non-psychiatric specialties. Source: APC Headline Figures - All Wales Providers - 2024/25 - DHCW.

These pressures strengthen the case for earlier prevention and detection. For example, Hywel Dda UHB has tested approaches in podiatry services where staff check for an irregular pulse and refer people for further assessment where needed. Earlier detection of atrial fibrillation can reduce the risk of complications such as transient ischaemic attack or stroke, improving outcomes for individuals and reducing pressure on services.



Population projections are also being used to plan future services. For example, work on transcatheter aortic valve implantation (TAVI) has considered how future demand may change as the population ages, given that age is an important risk factor for aortic valve disease.

## Social connection and loneliness

Social connection is central to ageing well, but the main evidence and policy context have already been set out in Part 2. For older people, the issue is especially practical: poor health, poverty, digital exclusion, limited transport, caring responsibilities and lack of accessible opportunities can stop people from benefiting from community life. Public Health Wales evidence highlights the importance of social relationships for older people's health and wellbeing. Source: Building the social relationships of older people in Wales: challenges and opportunities - Public Health Wales.

Loneliness and isolation should therefore be treated as health risks, not only social issues. Abuse, financial struggle, loneliness and social isolation in later life are independently associated with poorer health outcomes among older adults in Wales. One recent national survey of older people found that 12.5% of participants had experienced abuse since age 60, 19.0% had struggled financially and 20.7% had felt lonely or socially isolated. Source: Social Model for Health and Wellbeing - Hywel Dda UHB.

Rurality changes the experience of ageing because access becomes more challenging as people become less mobile. A journey that is manageable at 65 may become difficult at 80. A digital appointment may help one person but exclude another. A strong local network may protect someone, while another person remains unseen. The issue is the combined effect of rurality, ageing, health, income, mobility, housing, transport and social connection.

## Creating an age-friendly Mid and West Wales

The evidence on rural and coastal ageing points to the importance of whole-system, asset-based approaches. Health inequalities in older populations in rural and coastal areas reflect both vulnerability and resilience, including poverty, social exclusion, community assets, health and care support, digital inclusion and wider system action. Source: An evidence summary of health inequalities in older populations in coastal and rural areas - Public Health England.

Local community-driven initiatives such as **Borth Community Hub, Solva Care** and the **Ten Towns initiative** show how place-based approaches can support older people to remain connected, active and independent. Their value lies in local ownership, trusted relationships, practical help close to home, use of community assets, and links between statutory services, third sector organisations and informal networks.

### Promising place-based, community-led initiatives in the Hywel Dda area

#### Ten Towns

is a place-based regeneration programme in rural market towns in Carmarthenshire, supporting economic development, community spaces and local resilience.

#### Borth Community Hub

in Ceredigion is a long-standing community-run hub offering a pay-as-you-feel café, activities for older people and a local response to isolation.

#### Solva Care

is a community-founded registered charity in Pembrokeshire that supports older residents and helps sustain a connected local community.

The implication for Hywel Dda and partners is clear. Healthy rural ageing requires a shift from responding to crisis towards maintaining independence. This means identifying people earlier who are at risk of:

- frailty, falls, isolation or loss of function
- embedding strength, balance and physical activity into routine prevention and care pathways
- supporting unpaid carers
- connecting people to local assets
- aligning primary and community care, social care, housing, transport, digital inclusion and the third sector around shared outcomes

Taken together, the challenges in Part 3 point to the same conclusion: prevention in Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire needs to be local, practical and joined up. It must support individuals and families while also changing the conditions that shape health, including food access, transport, housing, digital inclusion, community connection and service availability.

The aim should be that older people in rural Mid and West Wales can live independently,


remain active, stay connected, contribute to their communities and access timely help when their needs change. This will require services and partners to build on the strengths of rural communities while deliberately targeting support towards those most at risk of frailty, isolation, poverty and preventable loss of independence.

The recommendations that follow set out where shared action is needed across the NHS, local authorities, communities and national partners.

Part 4

# Recommendations

The evidence in this report points to a clear conclusion: improving health in the Hywel Dda area requires shared action across the whole system. The recommendations below are framed as regional priorities because the main challenges of rural access, prevention, ageing, food, climate resilience, community connection and health inequalities, cut across organisational boundaries.

These recommendations sit within two connected regional approaches. The Social Model for Health and Wellbeing provides a set of principles by which partners across the region take an asset-based approach to improving population health and wellbeing: working with people, communities, local authorities, the third sector and public services to strengthen the conditions that help people live well. Source: Social Model for Health and Wellbeing - Hywel Dda UHB. The 20four7 Prevention Model aims to further embed prevention of ill health as "everyone, in every service, all the time" across Hywel Dda UHB services. This report brings these together in the rural context of Mid and West Wales, recognising that prevention needs both stronger community partnerships and a clearer health-service focus on earlier help, access, equity and avoiding escalation.

## Shared priorities for a healthy rural future

### 1 Make prevention core business across the Hywel Dda system

**Lead partners:** Hywel Dda UHB including General Practice, Community Pharmacies, the three local authorities, Public Service Boards and the Regional Partnership Board, and Public Health Wales.

Rebalance activity towards prevention across the life course, with a focus on early years, healthy weight, diabetes and long-term condition prevention, alcohol and drug-related harm, frailty, falls and healthy ageing and tobacco dependency. Prevention is a key component of the Community by Design programme. It should be a planning and continuous service improvement objective of routine care, including maternity, primary care, community services, planned care, outpatient pathways, pharmacy, mental health, substance misuse and hospital discharge. It should also be the core part of service specifications and delivery of the local authority services, including housing and education, of the other public services, such as Mid and West Wales Fire and Rescue Service and Natural Resources Wales.

Within health services, this means using the 20four7 Prevention Model to move prevention from the margins to everyday practice, join up what already works, reduce duplication and make it easier for teams to act earlier.

### 2 Design rural access into services, pathways and digital models

**Lead partners:** Hywel Dda UHB, local authorities, Digital Health and Care Wales and transport partners.

Ensure that travel time, transport availability, digital connectivity and workforce sustainability are treated as core health equity issues in all service planning and pathway redesign. Outreach, mobile, community-based and hybrid models should be used where appropriate to provide earlier support closer to home and prevent avoidable escalation, particularly for prevention, long-term condition management, smoking cessation, substance misuse, frailty, falls and support after discharge.

Service changes should routinely assess their impact on rural and coastal communities, people without access to a car, digitally excluded households, Welsh language needs, seasonal pressures and those living in the most access-deprived Lower Super Output Areas.

### 3 Support healthy rural ageing, frailty prevention and independence

**Lead partners:** Hywel Dda UHB, local authorities, social care providers, primary care providers, third sector and community groups.

Develop a regional healthy ageing and frailty prevention approach across Hywel Dda, local authorities, primary care, social care and the third sector. This should prioritise early identification of people at risk of frailty, falls, isolation or loss of function; access to strength and balance activity close to home; support for unpaid carers; dementia-friendly and age-friendly communities; and better links between primary care, community services, housing, transport and voluntary support.

Services should be designed, taking account of Welsh language needs, for people who cannot easily travel, no longer drive, are digitally excluded, or need support to reconnect after illness, bereavement or hospital admission.

## 4 Build healthier food and activity environments

**Lead partners:** local authorities, Public Services Boards, Community Food Partnerships, schools, planning and transport partners.

Local authorities, Public Services Boards, schools, planning teams, transport teams and community partners should use their levers to improve access to healthy food, safe everyday movement and supportive local environments. This should include strengthening Community Food Partnerships in Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire; using public sector food procurement to support healthier local food; improving food security and cooking and food skills initiatives; and further embedding healthy food and physical activity in early years and school settings.

Active travel and safe routes should be prioritised where they are realistic and equitable, recognising that rural distance and road safety limit walking and cycling for many communities.

This reflects the Social Model for Health and Wellbeing and a whole system approach to healthy weight: creating the local conditions that enable people to live well, rather than relying only on individual behaviour change.

## 5 Improve access to tobacco, alcohol and drug-related harm support

**Lead partners:** Hywel Dda UHB, Dyfed Area Planning Board, local authorities, primary care providers, pharmacies and third-sector providers.

Improve confidential, accessible support for smoking cessation, alcohol-related harm and drug-related harm. This should include outreach, pharmacy and community-based access points, integrated mental health and substance misuse pathways, support for complex needs, and pathways designed for people affected by transport, stigma, digital exclusion or seasonal work.

## 6 Strengthen climate resilience, warm homes and food system resilience

**Lead partners:** local authorities, Public Services Boards, housing agencies, emergency planning partners, NHS estates and food partnerships.

Hywel Dda, local authorities, housing partners, Public Services Boards and emergency planning partners should treat climate adaptation as prevention. Priority actions should include reducing cold-home and fuel poverty risks, planning for overheating in homes and public buildings, protecting service continuity during flooding, storms, power or digital disruption, and targeting support to older people, people with long-term conditions, low-income households and isolated rural or coastal communities.

Climate risk should be built into estates planning, care pathways, community resilience planning, food resilience work and local transport planning.

## 7 Invest in community-led prevention and social connection

**Lead partners:** communities, third-sector, local authorities, NHS, social prescribing and community connector services.

This recommendation is central to the regional Social Model for Health and Wellbeing. Communities should be supported to lead and shape prevention activity that reflects local needs, culture and assets. The NHS, local authorities and third sector partners should invest in the community infrastructure that makes this possible, including community hubs, volunteering, social prescribing, schools, local champions, faith and cultural groups, peer support and practical help close to home. The 20four7 Prevention Model should help health services connect people to this support earlier and more consistently.

Attention should be given to people who are least likely to benefit from existing networks, including people who are isolated, digitally excluded, less mobile, new to an area, living on low incomes, or experiencing stigma. Social prescribing and community connector models should be linked to accessible transport, outreach and local community assets, so that people who are most isolated are actively reached rather than expected to self-refer.

The Community by Design Primary Care transformation model has the potential to ensure that primary care services have stronger links with local community groups and services. Some primary care services already have strong multi disciplinary teams which include representation from local authority and third-sector organisations. In this way, they are able to offer comprehensive packages of care to their most vulnerable patients.

In Carmarthenshire and in Pembrokeshire, social prescribers and community connectors are aligned to GP surgeries, enabling them to build stronger relationships and ensure vulnerable patients have their wider needs met.

In 2026-27, the Wellbeing of Future Generations' Progress Tracker will have elements of a Social Model added, supporting organisations in monitoring their progress towards embedding a Social Model for Health and Wellbeing.

### 8 Rural-proof policy, funding and strategic decisions

**Lead partners:** Welsh Government, national NHS bodies, regional partnerships and public bodies under Health Impact Assessment Regulations.

National partners should ensure that strategies, funding formulae, capital investment, digital programmes and service changes reflect the costs and access challenges of rural and coastal communities. Rural impact should be explicitly considered in strategic decisions, including through the Health Impact Assessment (Wales) Regulations 2025 when they come into force.

Assessments should consider travel time, transport availability, digital coverage, workforce sustainability, Welsh language, seasonal pressures, older population structure and the risk of widening inequalities in dispersed communities.

### 9 Invest for the long term in prevention, community capacity and rural resilience

**Lead partners:** national and regional partners, Hywel Dda UHB, local authorities, Public Services Boards, Regional Partnership Board and third-sector partners.

National and regional partners should shift investment towards prevention that reduces future demand on services, including healthy weight, early years, tobacco dependency treatment, alcohol and drug-related harm reduction, frailty and falls prevention, social connection, community hubs, food resilience, warm homes and climate adaptation. This continues the emphasis from previous Director of Public Health Annual Reports on sustained prevention, long-term partnership and shared accountability.

Investment should support multi-year delivery and evaluation, rather than short-term projects, so that partners can build capacity, learn what works and sustain successful approaches across Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire.

**What success would look like in 10–15 years**

In 10–15 years, rural Mid and West Wales will be a place where all people have as great an opportunity as possible to live well at every stage of life. Communities will be better connected, resilient and supported, with fewer years spent in poor health and narrower inequalities between places and population groups.

Success would mean that:

- People can access care, support and opportunities for wellbeing without distance or connectivity being a barrier
- Prevention is embedded across everyday life, with healthy choices made easier by supportive environments
- Older people are enabled to remain independent, active and valued contributors to their communities
- Communities are strong partners in improving health, shaping local solutions and supporting one another
- Rural and coastal communities are better protected from the health impacts of climate change and environmental pressures.
- Multi agency services continue to develop stronger connections and services, leading to more responsive, effective and efficiently delivered services in our rural communities

## Monitoring progress

Progress towards this vision should be monitored through a rural health equity and population health dashboard. Our Social Model for Health and Wellbeing Maturity Matrix is also a good monitoring tool to indicate progress of all partners towards strengthening communities, prevention and early intervention.

It has been embedded in the Wellbeing of Future Generations Progress Checker. This should include measures of rural access and equity, including travel time, digital exclusion, access to services, healthy life expectancy, frailty and falls, smoking cessation reach, alcohol and drug-related harm, food access, social connection and climate vulnerability. This should be combined with community insight from Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire, as well as the delivery of contractual and primary care commissioned services. The dashboard should help track both the 20four7 Prevention Model and the regional Social Model for Health and Wellbeing: whether prevention is being embedded in routine health pathways, whether earlier help is reaching people closer to home, whether community partnerships are strengthening local support, and whether action is reducing inequalities between places and population groups.

The Director of Public Health Annual Report will continue to provide an annual account of progress, informing system priorities, supporting shared accountability and guiding long term action for healthy rural futures in Carmarthenshire, Ceredigion and Pembrokeshire.

GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Hywel Dda
University Health Board

GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda University Health Board

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus 2026

## Adeiladu dyfodol gwledig iach yn y Canolbarth a'r Gorllewin

# Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus 2026

## Adeiladu dyfodol gwledig iach yn y Canolbarth a'r Gorllewin

# Cynnwys

# Rhagair

## Adeiladu Dyfodol Gwledig Iach yn y Canolbarth a'r Gorllewin

Mae ardal Hywel Dda yn lle arbennig i fyw, i weithio ac i dyfu'n hŷn.

Mae yma gymunedau cryf, diwylliant cyfoethog, tirweddau godidog ac ymdeimlad dwfn o berthyn. Mae'r bobl yn gefnogol o'i gilydd, y Gymraeg a hunaniaeth Gymreig yn ffynnu, a gwytnwch cymunedol yn parhau i fod yn ased allweddol.

Mae llawer o gryfderau y Canolbarth a'r Gorllewin yn deillio o natur wledig y rhanbarth, ond mae hyn hefyd yn siapio rhai o'n heriau iechyd mwyaf arwyddocaol.

Mae ein cymunedau yn gyfoethog o ran asedau naturiol, diwylliant, y Gymraeg, gwirfoddoli ac ysbryd cymunedol. Mae'r cryfderau hyn yn cyfrannu'n helaeth at ein hiechyd a'n llesiant ac maent ymhlith ein hadnoddau mwyaf gwerthfawr.

Ar yr un pryd, mae gwledigrwydd yn creu heriau a all ei gwneud hi'n anoddach i rai pobl fyw bywydau iach. Mae pellter, trafnidiaeth, tai, cysylltedd digidol, mynediad at wasanaethau a chostau byw cynyddol oll yn dylanwadu ar iechyd a chyfleoedd ar draws ein rhanbarth.

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn archwilio sut mae gwledigrwydd yn siapio iechyd a llesiant ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Mae'n tynnu sylw at asedau a heriau byw yng nghefn gwlad, yn archwilio rhai o'r materion iechyd pwysicaf sy'n wynebu ein cymunedau, ac yn nodi camau gweithredu ymarferol a all helpu i wella iechyd a lleihau anghydraddoldebau.

Mae neges ganolog yn rhedeg trwy'r adroddiad: **mae iechyd da yn cael ei greu ymhell y tu hwnt i furiau'r Gwasanaeth Iechyd.**

Mae gwasanaethau gofal iechyd yn hanfodol, ond mae iechyd hefyd yn cael ei siapio gan:

- addysg
- tai
- trafnidiaeth
- cyflogaeth
- cynllunio
- cysylltiadau cymunedol
- mynediad at fwyd iach a'r amgylcheddau lle mae pobl yn byw ynddynt

Ni all unrhyw sefydliad unigol fynd i'r afael â'r heriau hyn ar ei ben ei hun. Mae adeiladu dyfodol iachach yn gofyn am weithredu ar y cyd ar draws y GIG, llywodraeth leol, y trydydd sector, cymunedau, busnesau a phartneriaid cenedlaethol.

Mae'r adroddiad hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd atal salwch. Wrth i'n poblogaeth heneiddio a nifer y bobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor yn parhau i gynyddu, rhaid i ni wneud mwy i atal salwch, i leihau salwch ac i oedi salwch, i ymyrryd yn gynt ac i helpu pobl i aros yn iach, yn annibynnol ac yn gysylltiedig â'u cymunedau am gyfnod hirach.

Nid rhywbeth dewisol yw atal; mae'n hanfodol i gynaliadwyedd gwasanaethau cyhoeddus ac i lesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Y newyddion da yw bod llawer o'r sylfeini eisoes ar waith gennym. Ar draws ardal Hywel Dda, mae gwasanaethau cyhoeddus a chymunedau'n gweithio gyda'i gilydd i gryfhau gwytnwch lleol, cefnogi ffyrdd iachach o fyw, mynd i'r afael ag anghydraddoldebau a gwella llesiant. Trwy fentrau fel ein Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant a Model Atal 20pedwar7, mae gennym gyfle i wneud pawb yn rhan o'r atal ac i sicrhau bod iechyd yn cael ei ystyried ym mhob penderfyniad a wnawn.

Mae'r adroddiad hwn yn asesiad o ble rydyn ni heddiw ac yn alwad i weithredu ar gyfer y dyfodol.

Mae'n gwahodd pob un ohonom i ystyried sut y gall ein penderfyniadau, ein buddsoddiadau a'n blaenoriaethau gyfrannu at gymunedau iachach. Mae'n ein herio i ddylunio gwasanaethau o amgylch pobl yn hytrach na sefydliadau, i leihau anghydraddoldebau ble bynnag y byddant yn bodoli, ac i gydnabod bod gwella iechyd yn sylfaenol i ddyfodol cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro.

Fy ngobaith yw y bydd yr adroddiad hwn yn ysgogi trafodaeth, yn cryfhau partneriaethau ac yn ysbrydoli gweithredu ar draws ein rhanbarth. Mae gennym gyfle i gryfhau ein gwaith gyda'n gilydd gydag uchelgais a phwrpas o'r newydd fel y gall pawb yn y Canolbarth a Gorllewin, waeth ble maent yn byw, fwynhau'r cyfle i fyw bywyd hir, iach a boddhaus.

**Dr Ardiana Gjini**
Cyfarwyddwr Gweithredol
Iechyd Cyhoeddus
Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda

# Crynodeb gweithredol

Mae Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr Iechyd Cyhoeddus yn disgrifio sut mae iechyd a llesiant ein poblogaeth yn cael ei siapio gan wledigrwydd ar draws Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae'r adroddiad yn nodi'r camau gweithredu sydd angen eu cymryd gan y GIG, awdurdodau lleol, cymunedau, y trydydd sector a phartneriaid cenedlaethol i leihau anghydraddoldebau iechyd fel bod cyfle gan bawb i fyw'n dda ac i heneiddio mewn iechyd da.

Mae cryfderau sylweddol yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymrui gryfderau sylweddol: amgylchedd naturiol hardd, cymunedau cryf gydag ymrwymiad mawr i wirfoddoli, iaith a hunaniaeth ddiwylliannol, ac ymdeimlad dwfn o le a pherthyn. Mae'r asedau hyn yn cefnogi ansawdd bywyd da, a llesiant a gwytnwch cymunedol. Mae natur wledig hefyd yn creu heriau penodol. Mae pellter, seilwaith trafnidiaeth, cysylltedd digidol, tai, cyflogaeth, mynediad at fwyd, risgiau hinsawdd a mynediad at wasanaethau lleol i gyd yn dylanwadu ar gyfleoedd pobl i fyw'n dda. Mae'r ffactorau hyn yn rhyngweithio ag amddifadedd a gallant ychwanegu at ei effeithiau. Ynghyd â phoblogaeth sy'n heneiddio a lefelau cynyddol o gyflyrau hirdymor, mae hyn yn golygu bod anfantais yn gallu gwasgaru, cuddio a phrofi'n anoddach mynd i'r afael ag ef trwy fodelau gwasanaeth safonol.

**Mae pedair rhan i'r adroddiad hwn.**

Mae **Rhan 1** yn nodi'r cyd-destun gwledig ar gyfer iechyd yn Hywel Dda. Mae'r ardal yn cwmpasu chwarter tir Cymru ac yn gwasanaethu poblogaeth wasgaredig ar draws trefi arfordirol, trefi marchnad ac chymunedau bach gwledig. Mae'r adroddiad yn dangos bod mynediad yn fater o degwch iechyd: teithiau hir, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, cysylltedd digidol amrywiol a phwysau gweithlu yn effeithio ar allu pobl i gyrchu gofal, cymorth, cyflogaeth, addysg, bwyd a chyfleoedd cymdeithasol. Mae hefyd yn tynnu sylw at bwysigrwydd asedau gwledig, tra'n cydnabod nad yw rhwydweithiau lleol cryf yn cyrraedd pawb yn gyfartal.

Mae proffil iechyd y boblogaeth yn dangos pam mae atal a heneiddio iach yn flaenoriaethau brys. Mae gan Hywel Dda gyfran uwch o bobl hŷn na Chymru gyfan, ac erbyn 2047 amcanestynnir y bydd tua un o bob tri o drigolion yn 65 oed neu'n hŷn. Mae llawer o bobl yn byw'n hirach ond yn treulio cyfran fwy o'u bywydau mewn iechyd gwael, gyda nifer cynyddol o bobl yn byw gyda chyflyrau hirdymor. Mae smygu, pwysau afiach, defnydd niweidiol o alcohol ac anweithgarwch corfforol yn parhau i fod yn brif ysgogwyr salwch y gellir ei atal, sydd wedi'u siapio gan yr amodau y mae pobl yn byw ynddynt.

Mae **Rhan 2** yn ystyried penderfynyddion ehangach iechyd gwledig. Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn effeithio ar gymunedau gwledig ac arfordirol trwy dywydd poeth, cyfnodau o oerfel, llifogydd a stormydd amlach, ac aflonyddu ar systemau bwyd, seilwaith a pharhad gwasanaethau. Mae cartrefi oer, tlodi tanwydd a gorboethi yn risgiau iechyd y gellir eu hosgoi, yn enwedig i bobl hŷn a'r rhai sydd â chyflyrau hirdymor. Mae'r adroddiad hefyd yn dangos bod cysylltiad cymdeithasol yn rhan o'r system atal. Gall grwpiau cymunedol, gwirfoddoli, presgripsiynu cymdeithasol a rhwydweithiau lleol amddiffyn llesiant ac ymestyn cyrhaeddiad atal.

Rhaid eu meithrin fel nad yw'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o ynysu yn cael eu heithrio gan drafnidiaeth, costau, rhwystrau digidol neu ddiffyg hyder.

Mae **Rhan 3** yn archwilio heriau mawr o ran llesiant yn ardal Hywel Dda. Mae pwysau iach yn cael ei siapio gan ddylanwadau blynyddoedd cynnar, mynediad at fwyd, fforddiadwyedd, trafnidiaeth, teithio llesol ac amgylcheddau lleol. Mae tybaco, alcohol a niwed eraill sy'n gysylltiedig â chyffuriau yn cael eu siapio yn fwy gan amddifadedd nag gan wledigrwydd yn unig, ond mae natur wledig yn effeithio ar adnabod cynnar, mynediad at gymorth, cyfrinachedd, parhad gofal ac adferiad. Mae heneiddio'n dda yn cael ei fframio fel ased a blaenoriaeth atal, gyda ffocws ar alluogi mwy o bobl yn ddiweddarach mewn bywyd i aros yn egnïol, yn annibynnol, yn gysylltiedig ac yn werthfawr i'w cymunedau.

Mae **Rhan 4** yn nodi argymhellion ar gyfer gweithredu ar y cyd. Mae'r rhain yn cynnwys ymgorffori atal salwch fel swyddogaeth graidd y GIG ac ar gyfer sefydliadau sectorau eraill. Bydd hyn yn golygu mabwysiadu egwyddorion Cymunedol o'r Cychwyn yn llawn, gan gynnwys:

- cefnogi heneiddio gwledig iach
- gwella mynediad gwledig a chynhwysiant digidol
- adeiladu amgylcheddau lleol iachach
- cryfhau gwytnwch hinsawdd
- cefnogi atal dan arweiniad cymunedol
- dylunio polisïau gyda gwledigrwydd mewn golwg a buddsoddi ar gyfer y tymor hir mewn atal a gwytnwch cymunedol

Mae rhaglen trawsnewid Cymunedol o'r Cychwyn BIP Hywel Dda yn darparu fforwm lle gall y sefydliad ddod â'r elfennau allweddol o waith ynghyd a fydd yn sbarduno newid cynaliadwy, gan weithio gyda'n cymunedau i wella iechyd y boblogaeth a chanlyniadau iechyd.

Daw Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 i rym ym mis Ebrill 2027, sy'n gorfodi cyrff cyhoeddus yng Nghymru i gynnal asesiad o'r effaith ar iechyd wrth wneud penderfyniadau o natur strategol. Mae hwn yn gyfle sylweddol i'r system ehangach gymryd ymagwedd 'iechyd ym mhob polisi'.

Mae gwella iechyd yng nghefn gwlad y Canolbarth a'r Gorllewin yn dibynnu ar gyfrifoldeb ar y cyd. Mae unigolion, teuluoedd a chymunedau yn chwarae rôl bwysig trwy ddewisiadau bob dydd, gofalu, gwirfoddoli, cyfranogiad a chefnogaeth i'w gilydd. Fodd bynnag, mae'r dewisiadau hynny'n cael eu siapio gan amodau ehangach, gan gynnwys incwm, tai, trafnidiaeth, mynediad at fwyd, cysylltedd digidol, gwaith ac hyfforddiant, addysg, cysylltiad cymdeithasol a'r amgylchedd lleol.

Rôl partneriaid iechyd cyhoeddus a system felly yw gwneud dewisiadau iachach yn haws, tecach a mwy realistig, tra'n lleihau'r rhwystrau sy'n atal rhai pobl a chymunedau rhag byw'n dda.

Y neges ganolog yw nad yw gwledigrwydd yn un achos o iechyd da neu wael, ond mae'n siapio risg, mynediad a gwytnwch ac felly'r canlyniadau y mae pobl yn eu profi. Mae gwella iechyd yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro yn gofyn am atal sydd wedi'i gynllunio o amgylch mannau gwledig: yn agos at gymunedau, wedi'i seilio ar asedau lleol, yn canolbwyntio ar gydraddoldeb, ac yn cael ei gyflawni trwy bartneriaeth barhaus ar draws y system gyfan.

Rhan 1

# Deall iechyd mewn cymunedau gwledig

## Negeseuon allweddol

- Mae gwledigrwydd yn siapio iechyd trwy fynediad at wasanaethau, trafnidiaeth, cysylltedd digidol, tai, cyflogaeth, bwyd, cysylltiad cymdeithasol a'r amgylchedd naturiol
- Mae anfantais yn ardal Hywel Dda yn aml yn wasgaredig ac yn llai gweladwy, gyda rhwystrau mynediad yn chwarae rhan fawr mewn anghydraddoldebau iechyd
- Mae poblogaeth Hywel Dda yn hŷn na chyfartaledd Cymru ac mae'n heneiddio'n gyflymach, gan gynyddu pwysigrwydd atal clefydau cronig fel rhan o heneiddio'n iach
- Mae llawer o bobl yn byw bywydau hirach ond yn treulio rhan sylweddol o'r bywydau hynny mewn iechyd gwael, gydag anghydraddoldebau amlwg yn ôl lleoliad, amddifadedd ac oedran
- Rhaid cynllunio atal mewn systemau gwledig o amgylch cyd-destun lleol, asedau cymunedol a phartneriaeth ar draws sefydliadau statudol a chymunedol

# 1. Cyd-destun Hywel Dda

Mae un o bob tri o bobl sy'n byw yng Nghymru yn byw mewn ardaloedd gwledig. Mae BIP Hywel Dda yn cwmpasu chwarter tir Cymru a dyma'r ail fwrdd iechyd mwyaf gwasgaredig ei boblogaeth yn y wlad, sy'n gwasanaethu Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro. Mae cymunedau wedi'u gwasgaru'n eang, gan gynnwys trefi arfordirol, trefi marchnad a llawer o gymunedau bach gwledig.

**Tabl 1. Dwysedd poblogaeth BIP Hywel Dda**

| **Ardal** | **Dwysedd poblogaeth** (preswylwyr arferol fesul cilomedr sgwâr) |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 79.3 |
| Sir Benfro | 76.2 |
| Ceredigion | 40.0 |
| Cymru | **149.9** |

Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021, Nomis

**Map 1. Dosbarthiad Trefol gwledig poblogaeth BIP Hywel Dda**




Ffynhonnell: © Hawlfraint y Goron a hawl cronfa ddata 2026. Ordnance Survey AC0000849488. Llywodraeth Cymru
Source: © Crown Copyright and database right 2026. Ordnance Survey AC0000849488. Welsh Government

## Gwledigrwydd ac anfantais economaidd-gymdeithasol

Mae rhanbarth Hywel Dda yn wledig yn bennaf, ond nid yw ei heconomi yn unffurf. Mae gan Dde-ddwyrain Sir Gaerfyrddin dreftadaeth ddiwydiannol gref sy'n gysylltiedig â mwyngloddio glo, cynhyrchu tunplat a dur, ac mae rhai hen gymunedau diwydiannol yn parhau i brofi lefelau uwch o amddifadedd a chanlyniadau iechyd gwael na rhannau eraill o'r sir. Mewn cyferbyniad, mae llawer o Geredigion a sir Gaerfyrddin wledig yn cael ei nodweddu gan amaethyddiaeth, diwydiannau tir, addysg, twristiaeth a llawer o fusnesau bach. Mae gan Sir Benfro broffil economaidd unigryw. Mae hyn yn cyfuno amaethyddiaeth ac economi ymwelwyr sylweddol o amgylch ardaloedd o harddwch naturiol eithriadol ochr yn ochr ag asedau ynni a diwydiannol strategol yn Nyfrffordd Aberdaugleddau. Mae hyn yn cynnwys Porthladd Aberdaugleddau, seilwaith ynni, puro olew a chyfleusterau nwy naturiol hylifedig.

Ar draws y rhanbarth, mae gwasanaethau cyhoeddus, manwerthu, twristiaeth, lletygarwch a gwasanaethau gofal yn gyflogwyr mawr, ochr yn ochr â lefelau cymharol uchel o hunangyflogaeth. Mae enillion yn gyffredinol yn is na chyfartaledd Cymru a'r DU, gyda rhai economïau lleol yn dibynnu ar sectorau lle gall cyflogaeth fod yn dymhorol neu'n llai sicr.

**Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (2024) - enillion blynyddol canolrifol**




Mae allfudo ymhlith oedolion iau yn her barhaus, sy'n adlewyrchu canfyddiadau o well cyflogaeth a chyfleoedd gyrfa y tu allan i'r rhanbarth.

Mae pwysau costau byw ehangach, gan gynnwys fforddiadwyedd tai a thlodi tanwydd, yn siapio canlyniadau iechyd yn y rhanbarth ymhellach. Mae dibyniaeth ar olew ar gyfer gwresogi cartref yn her arbennig mewn ardaloedd gwledig wrth i gostau godi. Er enghraifft, mae 68% o aelwydydd yn Llannon, Cross Hands a Phen-y-groes yn dibynnu ar olew yn unig ar gyfer gwres canolog. Dyma'r gyfran uchaf a gofnodwyd ar gyfer unrhyw gymdogaeth yng Nghymru. Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021: how homes are heated in your area - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol).

Nid yw'r ffactorau hyn bob amser yn cael eu dal yn dda gan fesurau amddifadedd safonol.

Mae gwledigrwydd yn ychwanegu haen arall o her mewn mynediad at wasanaethau. Gall amseroedd teithio hir, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig, a llai o wasanaethau lleol ei gwneud hi'n anoddach cael mynediad at ofal iechyd, cyflogaeth, addysg, bwyd a chyfleoedd cymdeithasol. Mae'r map yn dangos lleoliad y gwasaenaethau gan gynnyws yr ysbytai, ysbytai cymunedol a'r canolfannau gofal integredig o fewn BIP Hywel Dda.

## Map 2. Yr ysbytai, ysbytai cymunedol, a'r canolfannau gofal integredig yn ardal BIP Hywel Dda



Mae cysylltedd digidol yn cynnig ffyrdd newydd o gael mynediad at ofal, cyngor a chymorth, ond mae band eang a darpariaeth symudol anwastad yn peryglu ehangu anghydraddoldebau yn hytrach na'u lleihau. Mae Tabl 3 yn dangos, er bod cyfran yr adeiladau sy'n is na'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cynhwysol Band Eang yn gymharol isel, bod mwy na 2,000 o adeiladau ledled y rhanbarth yn parhau i gael eu heffeithio. Mae Map 3 yn dangos bod signal ffonau symudol hefyd yn amrywio yn ddaearyddol, gyda rhannau mwy gwledig o'r Canolbarth a'r Gorllewin yn cael signal 4G is nag ardaloedd mwy trefol ar draws gweddill Cymru. Ar gyfer pobl sy'n byw yn yr aelwydydd hyn, sy'n rhedeg busnesau o'r adeiladau hyn neu'n dibynnu ar gysylltedd symudol wrth deithio, gall mynediad digidol gwael gyfyngu ar wasanaethau ar-lein,



apwyntiadau o bell, addysg, gwaith, cysylltiad cymdeithasol a mynediad at wybodaeth mewn modd amserol. Ffynhonnell: Universal Service Obligations - broadband an telephony - Ofcom.

**Tabl 2. Adeiladau sydd â signal band eang neu symudol gwael***

| Sir | Nifer yr adeiladau | Cyfran yr holl adeiladau (%) |
|---|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | 1,074 | 1.1% |
| Sir Benfro | 382 | 0.6% |
| Ceredigion | 658 | 1.7% |

*Wedi'i ddiffinio fel nifer a chyfran yr adeiladau islaw'r Rhwymedigaeth Gwasanaeth Cynhwysol Band Eang

Ffynhonnell: Perfformiad band eang sefydlog, Ofcom, 2025

**Map 3. Canran yr ardal sydd â signal ffôn symudol 4G gan o leiaf un darparwr rhwydwaith symudol, awdurdodau haen is/unedol, Ionawr 2026**




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol. Connected Nations and infrastructure reports

Gall natur anghysbell ac economïau cyfyngedig o ran graddfa gynyddu costau byw mewn ardaloedd gwledig a gwneud gwasanaethau'n anoddach eu cynnal yn lleol. Yn wahanol i ddinasoedd a threfi mwy, lle mae anfantais yn aml wedi'i ganolbwyntio mewn cymdogaethau wedi'u diffinio'n glir, mae anfantais wledig yn aml yn fwy gwasgaredig, yn llai gweladwy ac yn anoddach i'w nodi trwy fesurau safonol. Mae'r ffactorau strwythurol hyn yn siapio mynediad pobl at ofal, cyflogaeth, addysg, bwyd a chyfleoedd cymdeithasol, ac yn cyfrannu'n uniongyrchol at anghydraddoldebau iechyd.

Mae mapiau 4 a 5 yn dangos y patrwm hwn. Mae Map 4 yn dangos, ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn gyffredinol, mai dim ond nifer cyfyngedig o ardaloedd yn Hywel Dda sydd ymhlith y rhai mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys rhai cymunedau arfordirol ac ôl-ddiwydiannol fel rhannau o Lanelli, Aberdaugleddau ac Aberystwyth.

Mae Map 5 yn dangos darlun gwahanol a mwy eang o ran mynediad at wasanaethau: mae chwe deg naw o'r 235 Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (AGEHI) yn Hywel Dda yn y 10% mwyaf difreintiedig yng Nghymru ar gyfer y maes hwn. Mae hyn yn dangos bod amddifadedd gwledig yn aml yn cael ei yrru llai gan grynodiadau mawr o dlodi ac yn fwy gan y rhwystrau ymarferol o bellter, trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau hanfodol.

## Map 4. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru yn ôl sir ac ardal uwch-allbwn is, 2025




Ffynhonnell: © Hawlfraint y Goron 2025. Cartographics. Llywodraeth Cymru
Source: © Crown Copyright 2025. Cartographics. Welsh Government

## Map 5. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru mynediad at wasanaethau, yn ôl sir ac ardal uwch-allbwn is, 2025




Ffynhonnell: © Hawlfraint y Goron 2025. Cartographics. Llywodraeth Cymru
Source: © Crown Copyright 2025. Cartographics. Welsh Government

# Asedau gwledig

Mae gan gymunedau gwledig yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro asedau sylweddol a all gefnogi iechyd a llesiant. Mae'r rhain yn cynnwys mynediad at amgylcheddau naturiol a mannau gwyrdd, hunaniaeth leol gref a bywyd diwylliannol, rhwydweithiau cymorth anffurfiol, gwirfoddoli a chyfranogiad dinesig. Mae'r Gymraeg yn ffactor allweddol yn hunaniaeth ein hardal. Mae 51.9% o'r boblogaeth tair oed a throsodd yn siarad Cymraeg yng Ngheredigion, a 46.5% yn Sir Gaerfyrddin, gyda'r tair sir yn gweld cynnydd yn nifer y siaradwyr Cymraeg rhwng 2011 a 2021. Mae'n hanfodol ein bod yn cydnabod y cysyniad o angen ieithyddol wrth adeiladu dyfodol gwledig iach. Mae lefelau troseddu yn gyffredinol yn is mewn ardaloedd

gwledig nag mewn ardaloedd trefol, ac mae llawer o gymunedau yn elwa o lefelau uchel o ymddiriedaeth, cymdogaeth a thrigolion yn helpu'i gilydd.

Er bod data lleol yn gyfyngedig, mae tabl 4 yn dangos tystiolaeth y DU sy'n awgrymu bod gan ardaloedd gwledig gyfalaf cymdeithasol cryfach, ymddiriedaeth leol a chyfranogiad dinesig nag ardaloedd trefol.

**Tabl 3. Cefnogaeth gymunedol a chymdogaeth gryfach mewn ardaloedd gwledig o'i gymharu ag ardaloedd trefol (DU, 2020–2021)**

| Dangosydd | Gwledig (%) | Trefol (%) |
|---|---|---|
| Pobl sy'n cynnig help llaw i gymdogion | 63.8 | 53.2 |
| Pobl sy'n teimlo y gallent ddibynnu ar eu cymuned leol am gefnogaeth | 79.3 | 67.4 |
| Pobl sy'n cytuno bod eraill yn barod i helpu cymdogion | 75.4 | 65.0 |

Ffynhonnell: Social Capital in the UK - Y Swyddfa Ystadegau Gwladol

Mae'r asedau hyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu mewn gwirfoddoli a chyfranogiad dinesig. Mae data Cymru yn dangos bod pobl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig yn fwy tebygol o wirfoddoli na'r rhai mewn ardaloedd trefol, gyda 35% o bobl mewn ardaloedd gwledig yn gwirfoddoli o'i gymharu â 27% mewn ardaloedd trefol. Ffynhonnell: Gwirfoddoli (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Mawrth 2023 | LLYW.CYMRU. Mae nifer y pleidleiswyr a bleidleisiodd yn etholiad Llywodraeth Cymru 2026 hefyd yn awgrymu cyfranogiad dinesig cryf, gydag etholaethau newydd Ceredigion Penfro a Sir Gaerfyrddin yn cofnodi'r trydydd a'r pedwerydd nifer uchaf a bleidleisiodd yng Nghymru, sef 56.2% a 56.0% yn y drefn honno.

Fodd bynnag, nid yw asedau gwledig yn cyrraedd pawb yn gyfartal. Gall rhwydweithiau lleol cryf weithiau edrych tuag i mewn, ac efallai y bydd pobl sy'n newydd i ardal, wedi'u heithrio yn ddigidol, yn gymdeithasol ynysig, yn llai symudol, yn byw ar incwm isel neu'n profi stigma yn ei chael hi'n anoddach elwa ohonynt. Gall pobl hŷn mewn cymunedau bach fod yn arbennig o agored i niwed lle mae trafnidiaeth yn gyfyngedig neu gefnogaeth rhwng cenedlaethau yn wan. Mae adeiladu dyfodol gwledig iach felly yn golygu gwerthfawrogi a buddsoddi mewn asedau gwledig, tra hefyd yn sicrhau bod cymorth cymunedol yn gynhwysol, yn edrych tuag allan ac yn gysylltiedig â gwasanaethau a chyfleoedd ehangach. Ffynhonnell: Age and Loneliness in Wales - Wales Centre for Public Policy Data Insight. An evidence summary of health inequalities in older populations in coastal and rural areas - Public Health England.

# 2. Proffil iechyd y boblogaeth

## Poblogaeth wledig sy'n heneiddio

Mae bron i hanner **poblogaeth Hywel Dda** yn byw yn **Sir Gaerfyrddin (190,800)**, gyda thua thraean yn **Sir Benfro (125,761)** ac ychydig o dan un rhan o bump yng **Ngheredigion (72,599)**. Gan adlewyrchu tueddiadau gwledig ledled y DU, mae proffil poblogaeth Hywel Dda yn hŷn na Chymru gyfan ac mae'n heneiddio'n gyflymach na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Dros y ddau ddegawd diwethaf, mae nifer y bobl 65 oed a throsodd wedi cynyddu'n raddol. Mae pobl 65 oed a hŷn bellach yn ffurfio tua chwarter **poblogaeth Hywel Dda (26%)**, gydag amrywiadau bach ond sylweddol ar draws **Sir Benfro (27%), Ceredigion (26%)** a **Sir Gaerfyrddin (25%)**. Mae amcanestyniadau poblogaeth yn awgrymu y bydd y duedd hon yn parhau. Erbyn 2047, rhagwelir y bydd un o bob tri (34%) o drigolion yn Hywel Dda yn 65 oed a hŷn, o'i gymharu ag ychydig dros un o bob

pedwar (29%) ledled Cymru. Disgwylir i'r grwpiau oedran hynaf dyfu'n arbennig o gyflym, gyda nifer y bobl 85 oed a throsodd yn cynyddu'n sylweddol.

### Nifer cynyddol o bobl 65 oed a hŷn




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol Amcangyfrifion Canol Blwyddyn 2024
Source: ONS Mid-Year Estimates 2024

## Strwythur oedran y boblogaeth yn ôl blwyddyn oedran sengl a rhyw ar gyfer Sir Gaerfyrddin, 2011 i 2024




## Strwythur oedran y boblogaeth yn ôl blwyddyn oedran sengl a rhyw ar gyfer Sir Benfro, 2011 i 2024




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Lloegr a Chymru, canol 2024 - SYG
Source: Population estimates for England and Wales: mid-2024 - ONS

**Strwythur oedran y boblogaeth yn ôl blwyddyn oedran sengl a rhyw ar gyfer Ceredigion, 2011 i 2024**




Ffynhonnell: Amcangyfrifon poblogaeth ar gyfer Lloegr a Chymru, canol 2024 - SYG
Source: Population estimates for England and Wales: mid-2024 - ONS

Mae'r proffil heneiddio hwn yn gryfder pwysig yn ogystal â her sylweddol. Mae pobl hŷn yn gwneud cyfraniadau mawr i gymunedau gwledig drwy waith, gwirfoddoli, gofal di-dâl, cyfranogiad dinesig, iaith Gymraeg a bywyd diwylliannol. Mae hefyd yn cynyddu pwysigrwydd atal, cefnogaeth gynnar ar gyfer cyflyrau hirdymor, atal bregusrwydd a chwympiadau, gwasanaethau lleol hygyrch, trafnidiaeth, cynhwysiant digidol a chymunedau sy'n oed-gyfeillgar. Mae Rhan 3 yn ystyried heneiddio'n dda yn fwy manwl.

## Baich cynyddol clefyd cronig

Wrth i'r boblogaeth heneiddio, mae mwy o bobl yn byw'n hirach, a hynny gyda chyflyrau hirdymor. Adlewyrchir hyn mewn tueddiadau hanesyddol ar draws cofrestrau clefydau ar gyfer cyflyrau cronig mawr sy'n gysylltiedig ag oedran, gan gynnwys canserau, fel y dangosir yn y tablau 4 a 5. Dylid dehongli'r tueddiadau hyn yn ofalus, gan y gall newidiadau adlewyrchu heneiddio yn y boblogaeth, gwell diagnosis, newidiadau codio, goroesi a newidiadau sylfaenol mewn achosion clefydau.

Mae'r tabl yn dangos cynnydd sylweddol yn nifer y bobl a gofnodwyd ar gofrestrau clefydau cronig mawr. Mae'r cynnydd canrannol mwyaf i'w gweld mewn osteoporosis, ffibriliad atrïaidd, diabetes a methiant y galon. Mae'r rhain i gyd yn gyflyrau sydd â chysylltiad cryf ag heneiddio ac amlafiachedd, ac mae ganddynt oblygiadau sylweddol ar gyfer atal, canfod yn gynnar, gofal wedi'i gynllunio, rheoli meddyginiaethau, adsefydlu, gofal cymdeithasol a gofal di-dâl.

**Tabl 4. Nifer y cleifion ar gofrestrau clefydau cronig mawr sy'n gysylltiedig ag oedran yn Hywel Dda, o'r data cynharaf sydd ar gael hyd at 2023/24**

| Grŵp | Cyflwr | O | Cyfrif | Cyfrif yn 2023/2024 | Cynnydd canrannol | Newid rhagamcanedig mewn cyflyrau cronig hyd at 2033/34 (Cymru Gyfan) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Diabetes | Diabetes (17+ oed) | 2009/10 | 19783 | 29267 | 47.9% | 22% |
| Clefyd cardiofasgwlaidd | Ffibriliad atrïaidd | 2009/10 | 7881 | 12994 | 64.8% | 26% |
| | Methiant y Galon | 2009/10 | 3905 | 5792 | 48.3% | 45% |
| | Pwysedd gwaed uchel | 2009/10 | 62859 | 68650 | 9.2% | 7% |
| | Strôc / Ymosodiad Ischemig Dros Dro | 2009/10 | 8716 | 9925 | 13.8% | 8% |
| Anadlol | Asthma | 2009/10 | 26459 | 29632 | 12% | 8% |
| | Clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint | 2009/10 | 7394 | 9544 | 29% | 12% |
| Cyhyrysgerbydol | Osteoporosis (50+ oed) | 2012/13 | 352 | 818 | 132.4% | |
| | Arthritis gwynegol | 2013/14 | 3505 | 3916 | 11.7% | 16% |

Ffynhonnell: Fframwaith Ansawdd a Chanlyniadau a'r Fframwaith Sicrhau a Gwella

Mae'r tabl isod yn dangos patrwm tebyg ar gyfer canser. Cynyddodd nifer yr achosion o ganser, ac eithrio canser y croen nad yw'n melanoma, 32.3% rhwng 2002 a 2022, gyda chynnydd ymhlith dynion a menywod. Mae hyn yn atgyfnerthu pwysigrwydd atal, sgrinio, diagnosis cynnar a chefnogaeth i bobl sy'n byw gyda chanser a thu hwnt.

**Tabl 5. Newid yn nifer yr achosion o ganser yn Hywel Dda, ac eithrio canser y croen nad yw'n melanoma, 2002 i 2022**

| Grŵp | | Cyfrif yn 2002 | Cyfrif yn 2022 | Cynnydd Canran | Newid rhagamcanedig mewn cyflyrau cronig hyd at 2033 (Cymru Gyfan) |
|---|---|---|---|---|---|
| Mynychder canser | Dynion | 1079 | 1444 | 33.8% | 18% |
| | Menywod | 1005 | 1314 | 30.7% | 12% |
| | Pob Person | 2084 | 2758 | 32.3% | |

Ffynhonnell: Data cofrestr canser, Offeryn adrodd canser, Uned Gwybodaeth a Gwyliadwriaeth Canser Cymru (WCISU)

Gyda'i gilydd, mae'r tablau yn dangos mai'r her yn ogystal â bod mwy o bobl yn byw'n hirach, yw bod mwy o bobl yn byw yn hirach gydag anghenion iechyd cymhleth a chronnus.

## Byw rhan fwy o fywyd mewn iechyd gwael

Gan adlewyrchu patrymau ehangach a welwyd ledled Cymru a gwledydd eraill, mae gwelliannau hanesyddol mewn disgwyliad oes wedi stopio ar ôl degawdau o gynnydd cyson, ac mae anghydraddoldebau sylweddol yn parhau. Ledled Cymru, gall dynion sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig ddisgwyl byw bron i wyth mlynedd yn llai na'r rhai yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, tra bod y bwlch i fenywod ychydig yn llai na saith mlynedd. Ffynhonnell: Healthy life expectancy by national area deprivation, England and Wales - SYG.

Mae disgwyliad oes iach, y blynyddoedd o fyw mewn iechyd da, wedi dirywio. Mae hyn yn golygu bod pobl yn treulio mwy o'u bywydau mewn iechyd gwael. Mae hyn yn adlewyrchu'n rhannol y baich cynyddol a ddaw o glefydau cronig mewn poblogaeth sy'n heneiddio. Ar gyfer dynion yng Nghymru, gostyngodd disgwyliad oes iach o 61.3 mlynedd yn 2011–2013 i 59.2 mlynedd yn 2022–2024. Ar gyfer menywod, gostyngodd o 61.9 mlynedd i

58.5 mlynedd dros yr un cyfnod. Mae'r bwlch anghydraddoldeb mewn disgwyliad oes iach rhwng y cwintelau mwyaf difreintiedig a lleiaf difreintiedig yn parhau i fod yn sylweddol ar oddeutu saith mlynedd. Ffynhonnell: SYG – People, population and community – healthy life expectancy, UK. O fewn Hywel Dda, mae amrywiaeth rhwng siroedd hefyd, fel y dangosir yn y tabl isod.

**Tabl 6. Trosolwg o ddisgwyliad oes a disgwyliad oes iach ar gyfer y siroedd yn BIP Hywel Dda, 2024**

| Ardal | Gwrywod | | | Benywod | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Disgwyliad Oes | Disgwyliad Oes Iach | % disgwyliad oes mewn iechyd da | Disgwyliad Oes | Disgwyliad Oes Iach | % disgwyliad oes mewn iechyd da |
| Ceredigion | 79.7 | 63.3 | 79.4 | 83.3 | 63.2 | 75.9 |
| Sir Benfro | 78.8 | 61.6 | 78.2 | 83.1 | 61.5 | 74.0 |
| Sir Gaerfyrddin | 78.7 | 57.7 | 73.3 | 81.9 | 56.2 | 68.6 |
| BIP Hywel Dda | 79.1 | 60.1 | 76.0 | 82.4 | 59.3 | 72.0 |
| Cymru | 77.9 | 59.2 | 76.0 | 82.4 | 58.5 | 71.0 |

Ffynhonnell: Healthy life expectancy, UK: between 2011 to 2013 and 2022 to 2024 - ONS
Source: Healthy life expectancy, UK: between 2011 to 2013 and 2022 to 2024 - ONS

## Ffactorau risg addasadwy: proffil poblogaeth cryno

Mae smygu, diet, defnyddio alcohol a gweithgarwch corfforol yn parhau i fod yn brif ysgogwyr salwch y gellir ei atal. Mae'r adran hon yn rhoi proffil poblogaeth cryno. Mae Rhan 3 yn dychwelyd at y materion hyn yn fanylach, gan ganolbwyntio ar bwysau iach, tybaco, alcohol a niwed arall sy'n gysylltiedig â chyffuriau, a'r ymateb atal sydd ei angen yng nghefn gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru.

## Smygu

Mae nifer y bobl sy'n smygu yn Hywel Dda yn llai na chyfartaledd Cymru, fel y dangosir yn y siartiau isod. Mae niwed tybaco yn parhau i fod yn anghyfartal, yn enwedig i bobl sy'n profi amddifadedd a rhai grwpiau sy'n wynebu allgáu. Mae Rhan 3 yn ystyried niwed sy'n gysylltiedig â smygu a chymorth rhoi'r gorau iddi yn fanylach.

**Ffigur 1: Oedolion sy'n ysmygu, canran wedi'i safoni yn ôl oedran, pobl 16+ oed, Cymru, Bwrdd Iechyd, 2024/2025**




Ffynhonnell: https://icc.gig.cymru/tudalen-data/data-offeryn-adrodd-fframwaith-canlyniadau-iechyd-y-cyhoedd/

Mae ffigurau heb eu haddasu yn dangos patrwm tebyg iawn, gyda Hywel Dda yn parhau â'r ail ganran isaf o oedolion sy'n smygu yng Nghymru, sef 7.7% o'r boblogaeth.

## Maeth

Mae'r siartiau isod yn dangos bod gorbwysau a gordewdra yn parhau i fod yn heriau iechyd y boblogaeth mawr. Mae dros hanner yr oedolion dros bwysau neu'n ordew, ac mae tua 30% o blant rhwng pedair a phump oed dros bwysau neu'n ordew, o'i gymharu â 27% yn genedlaethol. Mae amrywiad lleol hefyd, gyda lefelau uwch mewn ardaloedd gan gynnwys De Ceredigion ac Aman Gwendraeth. Mae Rhan 3 yn ystyried pwysau iach yn fanylach.



**Ffigur 2: Oedolion o oed gweithio sydd â phwysau iach, cyfartaledd penodol i oedran, pobl 16-64 oed, Bwrdd Iechyd, 2024/2025**




Ffynhonnell: https://icc.gig.cymru/tudalen-data/data-offeryn-adrodd-fframwaith-canlyniadau-iechyd-y-cyhoedd/

## Ffigur 3: Cyffredinrwydd y plant 4 i 5 oed dros bwysau neu'n ordew, Bwrdd Iechyd, 2024/25




Ffynhonnell: https://icc.gig.cymru/tudalen-data/dangosfwrdd-rhaglen-mesur-plant/

## Map 6: Cyffredinrwydd y plant 4 i 5 sydd yn ordew, BIP Hywel Dda, Clwstwr Gofal Sylfaenol, 2024/25




Ffynhonnell: Rhaglen Mesur Plant Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Alcohol

Mae'r siart isod yn dangos bod tua 17% o oedolion yn Hywel Dda yn yfed mwy na'r canllawiau wythnosol a argymhellir, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru, gyda Sir Benfro yn dangos y lefel uchaf yn y rhanbarth. Mae Rhan 3 yn ystyried niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, mynediad gwledig ac ymateb gwasanaethau yn fanylach.



**Ffigur 4: Oedolion sy'n yfed mwy na'r canllawiau, canran safonedig oedran, personau 16+, Cymru, Byrddau Iechyd dethol, awdurdodau lleol, 2022/2023 (ICC, 2025)**




Ffynhonnell: https://icc.gig.cymru/tudalen-data/data-offeryn-adrodd-fframwaith-canlyniadau-iechyd-y-cyhoedd/

## Gweithgarwch corfforol

Mae'r tabl isod yn dangos bod tua dwy ran o dair (61.9%) o oedolion yn Hywel Dda yn bodloni'r canllawiau gweithgarwch corfforol, o leiaf 150 munud o weithgarwch cymedrol i egnïol bob wythnos, ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru. Mae canllawiau wedi'u diweddaru yn 2026 yn atgyfnerthu'r neges, er bod cyrraedd y lefel hon yn darparu manteision iechyd pwysig, gall unrhyw gynnydd mewn symud wella iechyd a llesiant. Mae symud o fod yn anweithgar i wneud rhywfaint o weithgaredd felly yn gam ystyrlon a buddiol.

## Ffigur 5: Oedolion sy'n bodloni canllawiau gweithgarwch corfforol, canran wedi'i safoni yn ôl oedran, pobl 16+ oed, Cymru, Bwrdd Iechyd, 2024/2025




Ffynhonnell: https://icc.gig.cymru/tudalen-data/data-offeryn-adrodd-fframwaith-canlyniadau-iechyd-y-cyhoedd/

Mae Canolbarth a Gorllewin Cymru wledig yn cyflwyno rhwystrau arbennig i adeiladu gweithgarwch corfforol i fywyd bob dydd. Gall pellteroedd hir, dibyniaeth ar geir, trafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig a llai o lwybrau cerdded a beicio diogel leihau teithio llesol, yn enwedig i blant, pobl hŷn a'r rhai ar incwm is. Mae gan Gymru wledig fynediad uchel at gerbydau, gyda 94% o bobl â mynediad at gerbyd o'i gymharu ag 85% mewn ardaloedd trefol, er bod mynediad yn is ymhlith pobl hŷn a'r rhai sy'n byw mewn amgylchiadau mwy difreintiedig. Ffynhonnell: Trafnidiaeth (Arolwg Cenedlaethol Cymru): Ebrill 2022 i Fawrth 2023 | LLYW. CYMRU.

Amcangyfrifir bod rhwng 30% a 50% o aelwydydd yn rhanbarth Hywel Dda mewn tlodi trafnidiaeth, a ddiffinnir fel angen gwario o leiaf 10% o'r incwm ar redeg car. Ffynhonnell: Making the Connection - Sustrans.

Dim ond tua un o bob pump o bobl ifanc 11 i 16 oed yn Hywel Dda sy'n cael y 60 munud o weithgaredd a argymhellir bob dydd. Mae'r siart isod yn dangos bod plant yn Hywel Dda yn llai tebygol o gerdded neu feicio i'r ysgol na phlant mewn unrhyw ardal bwrdd iechyd arall yng Nghymru, gan adlewyrchu pellter, ffyrdd gwledig a diffyg llwybrau diogel.

## Ffigur 6: Teithio egnïol a adroddwyd (cerdded neu feicio) mewn taith i'r ysgol, canran, pobl 11-16 oed, sawl bwrdd iechyd, Cymru, 2023




Ffynhonnell: https://icc.gig.cymru/tudalen-data/data-dangosfwrdd-iechyd-a-lles-plant-ysgolion-uwchradd/

# 3. Atal mewn system wledig

## Pam mae angen i atal gwledig weithio'n wahanol

Mae'r proffil yn Rhan 1 yn dangos pam mae'n rhaid cynllunio atal yn ein hardal o amgylch realiti lleol. Mae pellter, trafnidiaeth, mynediad digidol, pwysau'r gweithlu a chymunedau gwasgaredig yn golygu na all atal ddibynnu ar fodelau canolog neu glinigol yn unig.

## Adeiladu ar asedau lleol a rhwydweithiau dibynadwy

Mae angen i atal gwledig effeithiol ddefnyddio asedau lleol yn ogystal â gwasanaethau ffurfiol. Gall sefydliadau cymunedol dibynadwy, gwirfoddolwyr, hyrwyddwyr lleol, ysgolion a lleoliadau cymunedol helpu i gyrraedd pobl a allai gael eu colli fel arall.

## Partneriaeth a mynediad yn agos at gartref

Mae hyn yn golygu dod ag atal yn nes at gartref trwy allgymorth, cymorth cymunedol, modelau hybrid a phartneriaeth gryfach rhwng y GIG, llywodraeth leol, gofal cymdeithasol, iechyd cyhoeddus, y trydydd sector a chymunedau. Mae Rhannau 2 a 3 yn archwilio'r penderfynyddion ehangach hyn a'r heriau llesiant sy'n flaenoriaeth yn fwy manwl.

# Rhan 2

# Penderfynyddion ehangach iechyd gwledig

| Amodau economaidd-gymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cyffredinol | Amodau byw a gweithio | Rhwydweithiau cymdeithasol a chymunedol | Ffactorau ffordd o fyw unigol | Oedran, rhyw a ffactorau etifeddol |
|---|---|---|---|---|
| Allgáu digidol | Cyfleoedd cyfyngedig ar gyfer hyfforddiant ac addysg | Allgáu cymdeithasol | Camddefnyddio alcohol | |
| Diffyg trafnidiaeth | Tai oerach | Pobl a gwasanaethau sydd wedi'u gwasgaru'n fwy daearyddol | Stoiciaeth | |
| Amddifadedd | Tlodi tanwydd | Tafarndai a gwasanaethau allweddol yn cau | | |
| Tai hŷn a llai effeithlon o ran ynni | Diweithdra a thangyflogaeth | Ynysu | | |
| Marchnad rhentu fach | Gwaith llaw | | | |
| Prisiau tai yn ddrytach | Gwaith tymhorol | | | |
| Newid hinsawdd/llifogydd | Oriau gwaith hir | | | |
| Cyllido gwasanaethau gofal cymdeithasol | Straen | | | |
| Gwasanaethau'r GIG yn costio mwy i'w darparu | Llai o fynediad at wasanaethau'r GIG | | | |
| Cyllido Ymddiriedolaethau GIG gwledig | | | | |
| Adnoddau ar gyfer gwasanaethau'r GIG | | | | |

Ffynhonnell: Addaswyd o: Whitehead, M. and Dahlgren, G. (1991)

# 1. Newid yn yr hinsawdd, amgylcheddau gwledig ac iechyd y boblogaeth

## Negeseuon allweddol

- Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn effeithio ar iechyd yng nghefn gwlad Gorllewin Cymru drwy wres, oerfel, llifogydd, newid arfordirol ac aflonyddu ar ffyrdd, gwasanaethau, cartrefi a systemau bwyd
- Gallai'r effaith fod yn fwy ar gymunedau gwledig oherwydd bod pobl yn byw ymhellach oddi wrth ei gilydd, mae tai yn aml yn hŷn, mae opsiynau trafnidiaeth yn gyfyngedig ac mae seilwaith lleol yn fwy bregus
- Mae cartrefi oer, tlodi tanwydd a risg cynyddol o wres yn broblemau iechyd y gellir eu hosgoi, yn enwedig i bobl hŷn a'r rhai sydd â chyflyrau hirdymor
- Gall ansicrwydd bwyd gael ei guddio mewn ardaloedd gwledig ac mae'n cael ei siapio gan fforddiadwyedd, trafnidiaeth, opsiynau siopa a mynediad digidol, nid yn unig gan a yw bwyd yn cael ei gynhyrchu'n lleol
- Mae addasu i'r hinsawdd yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus ac mae'n cynnig cyfleoedd i wella iechyd, lleihau anghydraddoldebau a chryfhau gwytnwch cymunedol

## Newid yn yr hinsawdd fel penderfynydd iechyd gwledig

Mae newid yn yr hinsawdd eisoes yn llunio'r amodau sy'n effeithio ar iechyd yn ardal Hywel Dda. Mae Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at risgiau cynyddol o lifogydd, stormydd, gwres, newid arfordirol a phwysau ar seilwaith, systemau bwyd a llesiant.

Mae'r risgiau hyn yn bwysig i Hywel Dda oherwydd bod llawer o gymunedau wedi'u gwasgaru, pellteroedd teithio yn hir a'r boblogaeth yn hŷn na Chymru gyfan. Gall tarfu ar ffyrdd, pŵer, dŵr, systemau digidol neu gadwyni cyflenwi effeithio'n gyflym ar fynediad at ofal, meddyginiaethau, cymorth cartref a gwasanaethau hanfodol. Mae tystiolaeth genedlaethol hefyd yn dangos bod systemau seilwaith wedi'u cysylltu, felly gall problemau mewn un system effeithio ar eraill. Ffynhonnell: Strategaeth Addasu i'r Hinsawdd ar gyfer Cymru 2024 - Llywodraeth Cymru.

Mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar iechyd yn uniongyrchol trwy wres, oerfel, anafiadau ac amlygiad amgylcheddol. Mae hefyd yn effeithio ar iechyd yn anuniongyrchol trwy dai, bwyd, trafnidiaeth, cyflogaeth, gwytnwch cymunedol a mynediad at wasanaethau. Mae tystiolaeth y DU a Chymru yn cysylltu newid yn yr hinsawdd ag effeithiau iechyd meddwl ar ôl llifogydd, ansawdd aer gwael, risgiau newid i glefydau heintus ac aflonyddu ar y systemau y mae pobl yn dibynnu arnynt. Ffynhonnell: Health Effects of Climate Change (HECC) report - GOV.UK; Newid Hinsawdd yng Nghymru: Asesiad o'r Effaith ar Iechyd - Canolfan Gydweithredol Sefydliad Iechyd y Byd ar Fuddsoddi ar gyfer Iechyd a Llesiant.

## Llwybrau risg hinsawdd yng nghefn gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru

- Gall **gwres eithafol** gynyddu'r risg o salwch i bobl hŷn a phobl â chyflyrau hirdymor. Gall staff a chleifion mewn adeiladau fod yn dueddol o orboethi
- Gall **llifogydd a stormydd** darfu ar ffyrdd, apwyntiadau, meddyginiaethau, cyfleustodau, gofal cartref a mynediad at wasanaethau brys
- Gall **tarfu pŵer, dŵr a digidol** gael mwy o ganlyniadau mewn system wledig gwasgaredig lle gall pobl ddibynnu ar ofal o bell, offer meddygol, trafnidiaeth a chymorth anffurfiol
- Gall **risgiau hinsawdd ehangu anghydraddoldebau** lle mae gan bobl dai tlotach, incwm is, trafnidiaeth gyfyngedig, mynediad digidol gwael neu lai o allu i addasu
- **Addasu yw atal:** gall ystadau sector cyhoeddus gwydn, cymunedau cryf, llwybrau diogel, gwasanaethau sy'n ymwybodol o'r hinsawdd a chymorth wedi'i dargedu i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl leihau niwed y gellir ei osgoi a diogelu parhad gwasanaethau

## Diogelu Iechyd Gwledig: Dŵr, Heintiau a Chymunedau Gwledig

Mae diogelu iechyd yn elfen graidd o iechyd y boblogaeth, gan helpu i atal salwch, lleihau niwed a chryfhau gwytnwch cymunedol. Yn Hywel Dda, mae ein daearyddiaeth wledig yn creu ystyriaethau diogelu iechyd unigryw sy'n gofyn am weithredu cydgysylltiedig ar draws y system iechyd a gofal.

Mae gan lawer o gymunedau ar draws rhanbarth Hywel Dda gysylltiadau agos â'r amgylchedd naturiol, amaethyddiaeth a thwristiaeth. Mae rhai aelwydydd a busnesau hefyd yn dibynnu ar gyflenwadau dŵr preifat o ffynhonnau, tyllau turio a tharddellau yn hytrach na chyflenwadau dŵr cyhoeddus. Er y manteision iechyd a llesiant di-ri o fyw yn wledig, gall hefyd greu llwybrau penodol o ddod i gysylltiad â pheryglon heintus, amgylcheddol a milheintiol sy'n gofyn am wyliadwriaeth, atal ac ymateb parhaus.

Mae heintiau fel cryptosporidium a campylobacter yn dangos pwysigrwydd y dull hwn. Gall yr heintiau hyn fod yn gysylltiedig ag ystod o amlygiad, gan gynnwys bwyd neu ddŵr halogedig, cyswllt â da byw, halogiad amgylcheddol, a throsglwyddo o berson i berson. Felly, mae amddiffyn iechyd yn gofyn am ddull system gyfan sy'n cyfuno ymwybyddiaeth y cyhoedd, monitro amgylcheddol, arferion bwyd a dŵr diogel, gwyliadwriaeth heintiau, ymchwilio i achosion ac ymateb aml-asiantaeth effeithiol.

Mae ansawdd a diogelwch cyflenwadau dŵr preifat yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig mewn ardaloedd gwledig. Gall cyflenwadau preifat fod yn fwy agored i halogiad microbiolegol na systemau dŵr cyhoeddus rheoledig, yn enwedig yn dilyn cyfnodau o law trwm, dŵr ffo amaethyddol, triniaeth annigonol, llifogydd neu gynnal a chadw gwael. Mae sicrhau cyflenwadau dŵr preifat diogel yn dibynnu ar weithio mewn partneriaeth rhwng awdurdodau lleol, timau iechyd yr amgylchedd, rheoleiddwyr dŵr, Iechyd Cyhoeddus Cymru, cymunedau a pherchnogion cyflenwadau.

Mae data gwyliadwriaeth diweddar gan Iechyd Cyhoeddus Cymru yn dangos pwysigrwydd gwyliadwriaeth barhaus. Roedd hysbysiadau o cryptosporidiosis a haint campylobacter yn ardal Hywel Dda yn ystod 2026 yn uwch na'r

cyfartaledd hanesyddol diweddar. Er nad yw tueddiadau gwyliadwriaeth o reidrwydd yn nodi achosion nac yn nodi achosion penodol, maent yn darparu gwybodaeth werthfawr i gefnogi asesu risg, gweithgarwch atal wedi'i dargedu ac ymchwiliad amserol lle bo angen.

Mae diogelu iechyd yn ymestyn ymhell y tu hwnt i reoli achosion unigol. Mae'n cynnwys atal heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, lleihau heintiau a gafwyd yn y gymuned, gwella cyfraddau brechu, cryfhau stiwardiaeth gwrthficrobaidd, paratoi ar gyfer digwyddiadau amgylcheddol, ac adeiladu gwytnwch i fygythiadau sy'n dod i'r amlwg gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â newid yn yr hinsawdd. Yn gynyddol, mae llawer o'r heriau hyn yn codi ar y rhyngwyneb rhwng iechyd amgylcheddol, anifeiliaid a phobl, gan atgyfnerthu pwysigrwydd ymagwedd Un Iechyd.

Gan gydnabod y risgiau rhyng-gysylltiedig hyn, mae Grŵp Goruchwylio Strategol Diogelu Iechyd Hywel Dda yn darparu arweinyddiaeth system a goruchwylio blaenoriaethau diogelu iechyd ledled y rhanbarth. Gan weithio ochr yn ochr ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, awdurdodau lleol, gwasanaethau iechyd yr amgylchedd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru, partneriaid cynllunio argyfwng a darparwyr gofal iechyd, mae'r Grŵp yn cefnogi dull cydgysylltiedig o atal, parodrwydd, ymateb ac adferiad. Mae'r bartneriaeth hon yn galluogi sefydliadau i rannu deallusrwydd, nodi risgiau sy'n dod i'r amlwg a chryfhau gweithredu ar y cyd i ddiogelu iechyd ein poblogaeth.

Wrth i bwysau newid yn yr hinsawdd, ymwrthedd gwrthficrobaidd, heintiau sy'n dod i'r amlwg a pheryglon amgylcheddol barhau i ddatblygu, bydd amddiffyniad iechyd effeithiol yn dibynnu fwyfwy ar gydweithredu ar draws ffiniau sefydliadol. Trwy gryfhau gwyliadwriaeth, atal a gweithio mewn partneriaeth, gallwn leihau niwed y gellir ei osgoi, amddiffyn poblogaethau agored i niwed a chreu cymunedau iachach, mwy diogel a mwy gwydn ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

## Oerfel, gwres a thai

Mae risg hinsawdd yng Nghymru yn cynnwys oerfel a gwres. Mae cartrefi oer yn parhau i fod yn brif achos salwch, yn enwedig i bobl hŷn a phobl â chyflyrau'r galon neu'r ysgyfaint. Gall tlodi tanwydd, inswleiddio gwael a dibyniaeth ar wresogi oddi ar y grid gynyddu'r risgiau hyn mewn ardaloedd gwledig. Ffynhonnell: Winter mortality - POST.

Mae tymheredd cynyddol hefyd yn cynyddu'r risg o orboethi mewn cartrefi, lleoliadau gofal ac adeiladau cyhoeddus. Mae hyn yn bryder arbennig i bobl hŷn, pobl â chyflyrau hirdymor a phobl sy'n treulio cyfnodau hir dan do.

Mae tai da felly yn fater atal. Gall cartrefi cynhesach, mwy diogel a mwy ynni-effeithlon leihau tlodi tanwydd, gwella iechyd a chefnogi datgarboneiddio.

### Cartrefi oer

Mae cysylltiad clir rhwng cartrefi oer a marwolaethau gormodol yn y gaeaf yng Nghymru. Mae tymheredd dan do o dan dan 18°C yn gysylltiedig ag ystod o ganlyniadau niweidiol ar iechyd, yn enwedig i bobl hŷn a'r rhai sydd â chyflyrau hirdymor (Janssen H, Ford K, Gascoyne B, Hill R, Roberts M, Bellis MA, Azam S. Ffynhonnell: Cold indoor temperatures and their association with health and well-being: a systematic literature review - Public Health.

Mae cartrefi oer yn cyfrannu at salwch anadlol, gwaethygu cyflyrau cronig, mwy o wendid a derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu hosgoi. Mewn ardaloedd gwledig, gall dibyniaeth ar wresogi oddi ar y grid a chostau ynni uwch gynyddu amlygiad i'r risgiau hyn.

Felly, mae mynd i'r afael â chartrefi oer yn gyfle atal, gan wella canlyniadau iechyd tra'n lleihau pwysau'r gaeaf ar wasanaethau iechyd a gofal.




Ffynhonnell: Janssen H, Gascoyne B, Ford K, Hill R, Roberts M ac Azam S (2022) Cartrefi oer a'u cysylltiad ag iechyd a llesiant: adolygiad llenyddiaeth systematig. Wrecsam: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru

## Systemau bwyd, mynediad a gwytnwch

Mae bwyd yn cysylltu hinsawdd, economïau gwledig ac iechyd. Mae ein hardal yn cynhyrchu bwyd, ond nid yw hyn yn golygu y gall pawb gael mynediad at fwyd iach a fforddiadwy. Mae tystiolaeth o Gymru yn dangos bod gan rai ardaloedd gwledig fynediad gwael at fanwerthwyr bwyd, cysylltiadau trafnidiaeth gwannach a mynediad ar-lein mwy cyfyngedig. Ffynhonnell: Which? highlights neighbourhoods in Wales most at risk of food insecurity - Consumer Data Research Centre.

Ar gyfer cartrefi, mae diogelwch bwyd yn dibynnu ar arian, trafnidiaeth, siopau lleol a'r gallu i archebu neu gasglu bwyd. Mewn ardaloedd gwledig, gall y rhwystrau hyn gyfuno a gwneud ansicrwydd bwyd yn llai gweladwy. Efallai y bydd pobl hŷn, aelwydydd incwm isel, gofalwyr a phobl heb drafnidiaeth na mynediad digidol yn cael eu heffeithio'n arbennig. Ffynhonnell: United Kingdom Food Security Report 2024: Theme 4: Food Security at Household Level - DEFRA.

Ar draws rhanbarth Hywel Dda, mae tua 70% o'r Ardaloedd Uwch-Allbwn Is yn perthyn i'r ddau gategori mwyaf difreintiedig ar gyfer anialwch bwyd, ac mae dros hanner yn y deg mwyaf difreintiedig. Mae'r rhanbarth hefyd yn cynnwys saith o'r 10 ardal sydd wedi'u rhestru waethaf o ran mynediad at fwyd ledled Cymru a Lloegr. Ffynhonnell: New Data: The e-food deserts index - Consumer Data Research Centre.

Er bod Cymru yn gynhyrchydd bwyd mawr, mae'r cynhyrchiad yn canolbwyntio'n bennaf ar gig, llaeth a grawnfwydydd. Dim ond tua 1% o'r tir sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau, a dim ond tua 6% o'r ffrwythau a'r llysiau a brynir gan y sector cyhoeddus sy'n dod o Gymru. Mae hyn yn golygu nad yw cynhyrchu lleol yn cyfieithu'n awtomatig i amgylcheddau bwyd lleol iachach. Ffynhonnell: Welsh Public Sector Food Procurement – Update on Spending and Welsh purchasing August 2022 - Brookdale Consulting.

Mae costau byw cynyddol yn ychwanegu pwysau pellach. Mae tystiolaeth yn dangos "premiwm gwledig", lle mae aelwydydd mewn ardaloedd gwledig yn wynebu costau bob dydd uwch na'r rhai mewn ardaloedd trefol, gyda rhai amcangyfrifon yn awgrymu y gallai costau fod tua 10-20% yn uwch. Ffynhonnell: The Rural Premium: exploring the impact of the cost-of-living crisis in rural areas - APPG.

Gall systemau bwyd lleol helpu. Mae Strategaeth Bwyd Cymunedol Llywodraeth Cymru yn tynnu sylw at rôl bwyd lleol wrth wella iechyd, cefnogi economïau lleol a chryfhau cymunedau. Gall Partneriaethau Bwyd Lleol gysylltu cynhyrchwyr, cymunedau a gwasanaethau i wella mynediad at fwyd iach, mynd i'r afael â thlodi bwyd a chefnogi gwytnwch. Ffynhonnell: Wales Community Food Strategy - Food & Drink Wales.

Gall cryfhau cynhyrchu lleol, cadwyni cyflenwi a phrosiectau bwyd cymunedol wella mynediad at fwyd iach, cefnogi swyddi lleol a lleihau bregusrwydd i siociau ehangach yn y system. Mae tystiolaeth genedlaethol hefyd yn tynnu sylw at yr angen i wella gwytnwch system fwyd mewn ymateb i bwysau hinsawdd ac economaidd. Ffynhonnell: Status of Local Food Partnerships in 2025 - Food Sense Wales.




## Anghydraddoldebau, mynediad a bregusrwydd gwledig

Ni fydd newid yn yr hinsawdd yn effeithio ar bawb yn gyfartal. Mae polisi Cymru yn cydnabod addasu i'r hinsawdd fel mater o degwch oherwydd bod gan bobl ar incwm is, pobl hŷn a phobl â chyflyrau iechyd, lai o allu i amddiffyn eu hunain neu wella.

Mewn cymunedau gwledig, gall aflonyddwch sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd wneud problemau mynediad presennol yn waeth. Gall llifogydd, stormydd neu darfu ar drafnidiaeth ynysu pobl a'i gwneud hi'n anoddach cyrraedd gofal, gwaith, siopau a chymorth cymdeithasol. Ffynhonnell: Spotlight on rural health and social care in Wales - Llais.

Heb weithredu wedi'i dargedu, gallai newid yn yr hinsawdd ehangu anghydraddoldebau presennol.

## Addasu i'r hinsawdd fel blaenoriaeth iechyd cyhoeddus

Mae addasu i'r hinsawdd yn flaenoriaeth iechyd cyhoeddus. Nid yw'n ymwneud ag ymateb brys yn unig; mae'n ymwneud â lleihau niwed y gellir ei osgoi, diogelu gwasanaethau a chynllunio nawr ar gyfer risgiau sydd eisoes yn cynyddu.

Mae llawer o gamau gweithredu yn dod â manteision ehangach. Gall tai gwell, cartrefi cynhesach, trafnidiaeth wydn, llwybrau mwy diogel a systemau bwyd cryfach wella iechyd, lleihau anghydraddoldebau a chefnogi cynaliadwyedd.

Y brif her yw cyflawni. Mae tystiolaeth genedlaethol yn dangos bod cynlluniau addasu yn datblygu, ond mae angen canolbwyntio parhaus ar weithredu a monitro. Ffynhonnell: Adapting to climate change - Progress in Wales - Climate Change Committee.

## Goblygiadau i Ganolbarth a Gorllewin Cymru wledig

Yn Sir Gaerfyrddin, Ceredigion a Sir Benfro, mae newid yn yr hinsawdd yn atgyfnerthu pwysigrwydd ymagwedd system gyfan at iechyd poblogaethau. Mae hyn yn cynnwys:

- ymgorffori risg hinsawdd mewn cynllunio gwasanaethau, llwybrau ac ystadau
- mynd i'r afael ag ansawdd tai, fforddiadwyedd ynni a thlodi tanwydd
- cryfhau systemau bwyd lleol a gwella mynediad at fwyd iach
- gwella gwytnwch trafnidiaeth a mynediad at wasanaethau
- cefnogi gwytnwch cymunedol a rhwydweithiau lleol
- targedu cymorth tuag at y rhai sydd fwyaf mewn perygl o anghydraddoldeb ac allgáu

Mae newid yn yr hinsawdd yn cyflwyno risgiau sylweddol, ond hefyd cyfleoedd i ail-lunio systemau o amgylch atal, tegwch a chynaliadwyedd.

# 2. Cymunedau, cysylltedd ac atal a arweinir gan y gymuned

## Negeseuon allweddol

- Mae cysylltiad cymdeithasol yn diogelu iechyd, tra bod unigrwydd ac ynysu yn cynyddu'r risgiau i lesiant corfforol a meddyliol
- Gall dulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned wella llesiant a gall helpu i gyrraedd pobl nad ydynt yn cael eu gwasanaethu mor dda gan wasanaethau traddodiadol
- Gall presgripsiynu cymdeithasol, gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol gysylltu pobl â chefnogaeth leol a chryfhau gwytnwch
- Mae rhwystrau strwythurol gwledig, gan gynnwys trafnidiaeth ac allgáu digidol, yn cyfyngu ar fynediad at gysylltiad a chymorth
- Yn aml, y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ynysu yw'r rhai sydd lleiaf abl i elwa, ac mae angen dulliau cynhwysol, wedi'u targedu
- Mae adeiladu cysylltiadau cymunedol yn hyrwyddo iechyd a llesiant yn fwyaf effeithiol pan gaiff ei gyfuno â gweithredu ar benderfynyddion ehangach iechyd i leihau anghydraddoldebau

## Cysylltiad cymdeithasol fel penderfynydd iechyd

Yng Nghymru, mae tua 13% o oedolion yn dweud eu bod yn profi unigrwydd, gyda chyfran debyg yn profi ynysu cymdeithasol. Mae'r profiadau hyn yn gysylltiedig â chanlyniadau iechyd corfforol a meddyliol gwael, gan gynnwys iselder, clefyd cardiofasgwlaidd a marwolaethau cynamserol.

Felly, mae cysylltiad cymdeithasol yn gweithredu fel ffactor amddiffynnol ac fel un llwybr i brofi anghydraddoldebau ehangach. Ffynhonnell: Unigrwydd, ynysigrwydd cymdeithasol a chysylltiad cymdeithasol yng Nghymru: Safbwynt iechyd cyhoeddus.

Mae'r risgiau hyn yn arbennig o bwysig mewn ardaloedd gwledig lle gall trafnidiaeth, mynediad digidol a llai o gyfleoedd lleol wneud cysylltiad yn anoddach i rai pobl.

## Dulliau ac atal sy'n canolbwyntio ar y gymuned

Mae dulliau cymunedol-ganolog yn rhan greiddiol o iechyd cyhoeddus. Maent yn gweithio gyda phobl a chymunedau, yn hytrach na dim ond darparu gwasanaethau ar eu cyfer. Mae canllawiau'r DU yn dangos y gall hyn wella iechyd a helpu i leihau anghydraddoldebau, yn enwedig ar gyfer grwpiau nad ydynt efallai yn cael eu gwasanaethu mor dda gan wasanaethau traddodiadol. Ffynhonnell: Community-centred practice: applying All Our Health - Public Health England.

Maent yn cefnogi atal trwy:

- gryfhau cymorth cymdeithasol a lleihau ynysu
- cynyddu hyder, pwrpas a rheolaeth
- cefnogi ymddygiadau iachach a llesiant meddyliol
- galluogi cymorth cynharach a chymorth anffurfiol
- adeiladu gwytnwch o fewn cymunedau

Dylid gwerthfawrogi atal a arweinir gan y gymuned am ei gyfraniad at lesiant, ymddiriedaeth a gwytnwch, tra hefyd yn cael ei werthuso'n ofalus fel bod partneriaid yn deall beth sy'n gweithio orau ac i bwy. Ffynhonnell: Community-based interventions and mental wellbeing in the UK - SCIE.

## Presgripsiynu cymdeithasol a chysylltu pobl ag asedau lleol

Mae modelau presgripsiynu cymdeithasol a chysylltydd cymunedol yn cysylltu pobl â chymorth lleol fel grwpiau cymdeithasol, gwirfoddoli, cyngor ymarferol, gweithgarwch corfforol, celfyddydau, gweithgareddau sy'n seiliedig ar natur a chymorth gan gymheiriaid. Maent yn helpu i fynd i'r afael â materion anfeddygol sy'n effeithio ar iechyd a llesiant.

Mae tystiolaeth yn y DU yn dangos bod presgripsiynu cymdeithasol yn gysylltiedig â gwelliannau mewn llesiant, profiad cleifion a hyder wrth reoli cyflyrau hirdymor. Ffynhonnell: What is the evidence for social prescribing? - NASP.

Mewn ardaloedd gwledig mae'r modelau hyn yn ddefnyddiol, ond mae angen iddynt fod yn hawdd eu cyrraedd. Gall trafnidiaeth, allgáu digidol, cost, hyder ac ymwybyddiaeth oll gyfyngu ar bwy sy'n elwa, felly mae allgymorth a dylunio cynhwysol yn bwysig.

## Gwirfoddoli a chyfranogiad cymunedol

Mae gwirfoddoli a chyfranogiad yn cefnogi atal trwy gryfhau rhwydweithiau cymdeithasol, hyder, pwrpas a gwytnwch cymunedol. Maent hefyd yn gysylltiedig â gwell llesiant a chyfalaf cymdeithasol. Ffynhonnell: Volunteering and its Effects on Social Capital and Wellbeing in the UK: Insights from the United Kingdom Household Longitudinal Study - SCVO.

## Anghydraddoldebau, mynediad a rhwystrau gwledig

Nid yw pawb yn gallu cael mynediad at gymorth cymunedol yn gyfartal. Mae'r rhwystrau cyffredin yn cynnwys:

- pellteroedd teithio hir a thrafnidiaeth gyhoeddus gyfyngedig
- allgáu digidol
- cost a fforddiadwyedd
- cyfrifoldebau gofalu a phwysau amser
- stigma, hyder ac ymwybyddiaeth

Mae trafnidiaeth yn arbennig o bwysig. Heb drafnidiaeth fforddiadwy a hygyrch, gall pobl gael eu hallgáu o ofal iechyd, gwaith, addysg, gweithgarwch cymdeithasol a chymorth cymunedol.

Gall hyn greu ynysu cudd, hyd yn oed mewn cymunedau sy'n ymddangos mewn cysylltiad da.

Y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ynysu yn aml yw'r rhai sydd lleiaf debygol o allu cael mynediad at gymorth, felly mae angen i ddulliau sy'n canolbwyntio ar y gymuned fod yn weithredol gynhwysol.

## Goblygiadau ar gyfer atal a newid system

Mae cysylltiad cymunedol yn rhan o'r system atal yn ardal Hywel Dda. Mae'n cefnogi llesiant, cymorth cynharach a gwytnwch, ac yn ategu gwasanaethau clinigol a gofal.

Mae'n cael yr effaith fwyaf o'i gyfuno â gweithredu ar dlodi, tai, trafnidiaeth, mynediad digidol a gwasanaethau lleol.

I Hywel Dda a'i bartneriaid, dyma'r goblygiadau:

- ymgorffori cysylltiad cymdeithasol o fewn strategaethau atal a llwybrau gofal
- mabwysiadu'r Siarter Model Cymdeithasol ar gyfer Iechyd a Llesiant
- cryfhau cysylltiadau rhwng gwasanaethau clinigol ac adnoddau cymunedol
- buddsoddi mewn capasiti cymunedol, gwirfoddoli a seilwaith lleol
- dylunio dulliau sy'n cyrraedd y rhai sydd fwyaf mewn perygl o ynysu
- gwella gwerthuso i ddeall effaith a llywio buddsoddiad yn well

Mae'r neges ehangach yn glir: mae asedau cymunedol cryf yn bwysig, ac mae angen eu cefnogi gan weithredu'n barhaus ar y cyflyrau sy'n siapio iechyd.

## Ffermwyr, pysgotwyr a gweithwyr coedwigaeth

Yn ogystal â gwasanaethau cyhoeddus, twristiaeth a lletygarwch, mae ffermio, pysgota a choedwigaeth yn chwarae rhan allweddol yn economi, diwylliant a hunaniaeth cefn gwlad Canolbarth a Gorllewin Cymru. Yn eu sgil daw risgiau iechyd amlwg. Gall pwysau ariannol, ansicrwydd, oriau gwaith hir, ynysu a stigma ynghylch gofyn am help effeithio ar iechyd meddwl a llesiant, yn enwedig mewn cymunedau bach lle gall cyfrinachedd fod yn bryder. Ffynhonnell: Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd - Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae deall anghenion iechyd poblogaethau ffermio yn hanfodol i gefnogi cymunedau amaethyddol a gwledig a sicrhau bod gwasanaethau gofal iechyd yn hygyrch, yn briodol ac yn ymatebol. Yng Nghymru, mae iechyd a llesiant ffermwyr nid yn unig yn bryder iechyd cyhoeddus ond mae hefyd yn gysylltiedig yn agos â nodau amaethyddol a pholisi gwledig ehangach. Gall iechyd corfforol a meddyliol gwael effeithio ar allu ffermwyr i reoli llwythi gwaith heriol, ymateb i newidiadau rheoleiddio, mabwysiadu arferion newydd, a chynnal cynaliadwyedd hirdymor eu busnesau fferm. Ffynhonnell: Defnydd iechyd a gofal iechyd ymhlith ffermwyr yng Nghymru: Mewnwelediadau o ddata gweinyddol cysylltiedig. ADR UK.

Rhan 3

# Heriau mawr o ran llesiant mewn ardaloedd gwledig

Roedd Rhannau 1 a 2 yn disgrifio'r cyd-destun gwledig, proffil iechyd y boblogaeth a'r amodau ehangach sy'n siapio iechyd yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Mae'r rhan hon yn cymhwyso'r dystiolaeth honno i dair her flaenoriaeth: pwysau iach, tybaco, alcohol a niwed arall sy'n gysylltiedig â chyffuriau, a heneiddio'n dda.

## Negeseuon allweddol

- Mae rhannau 1 a 2 yn dangos bod iechyd gwledig yn cael ei siapio gan fynediad, amddifadedd, amodau byw ehangach ac asedau cymunedol. Mae Rhan 3 yn cymhwyso'r dystiolaeth honno i dair her llesiant sy'n flaenoriaeth
- Mae angen atal ym meysydd pwysau iach, tybaco, alcohol a niwed arall sy'n gysylltiedig â chyffuriau, a heneiddio'n dda sy'n cyfuno cefnogaeth bersonol â gweithredu ar fwyd, trafnidiaeth, tai, mynediad digidol, cysylltiad cymunedol a gwasanaethau lleol
- Nid yw gwledigrwydd fel arfer yn achosi'r materion hyn ar ei ben ei hun, ond mae'n effeithio ar sut mae anghenion cynnar yn cael eu nodi, pa mor hawdd mae pobl yn cael mynediad at gymorth, ac a ellir cynnal cymorth
- Dylid trin heneiddio'n iach fel blaenoriaeth atal, gyda mwy o ffocws ar wendid, cwympiadau, symudedd, annibyniaeth a chysylltiad cymdeithasol
- Mae angen i'r ymateb fod yn y man a'r lle, yn ymarferol ac yn agos at gymunedau, gan ddefnyddio gwasanaethau statudol ac asedau lleol

# 1. Pwysau iach

Pwysau iach yw un o'r blaenoriaethau atal pwysicaf i Hywel Dda. Fel y dangosir yn Rhan 1, mae dros hanner yr oedolion dros bwysau neu'n ordew ac mae tua 30% o blant pedair a phump oed dros bwysau neu'n ordew, o'i gymharu â 27% yn genedlaethol. Mae'r cyfraddau uchaf yn rhai o'n cymunedau mwyaf difreintiedig ac maent yn cyfrannu at lefelau uchel o glefydau sy'n gysylltiedig â phwysau.

## Pam mae pwysau iach yn bwysig

Mae byw dros bwysau neu'n ordew yn cynyddu'r risg o ddiabetes math 2, clefyd cardiofasgwlaidd, cyflyrau cyhyrysgerbydol a rhai canserau. Gall hefyd effeithio ar lesiant meddyliol ac ansawdd bywyd. Mae nifer yr achosion o ddiabetes yn Hywel Dda yn uwch na chyfartaledd Cymru ac mae'n parhau i godi. Mae tua 8.4% o oedolion, tua 28,000 i 29,000 o bobl, yn byw gyda diabetes ar hyn o bryd. Os bydd y tueddiadau presennol yn parhau, rhagwelir y bydd hyn yn codi i bron i 39,500 o bobl erbyn 2030. Mae diabetes eisoes yn rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau, gyda thua un o bob chwech o welyau ysbyty yn cael eu meddiannu gan bobl â diabetes, yn aml ochr yn ochr â chyflyrau hirdymor eraill sy'n gysylltiedig â gordewdra.

## Mae pwysau iach yn cael ei siapio gan fwy na dewis unigol

Mae bwyta'n iach a gweithgarwch corfforol yn bwysig, ond maent yn cael eu siapio gan y lleoedd y mae pobl yn byw a'r adnoddau sydd ar gael iddynt. Fel y nodir yn Rhannau 1 a 2, mae mynediad at fwyd, fforddiadwyedd, trafnidiaeth, incwm, tai, amgylcheddau ysgol a chymunedol i gyd yn dylanwadu ar allu realistig i wneud dewisiadau iachach.

Mae dadansoddiad diweddar o Raglen Mesur Plant 2023/24 yn awgrymu bod preswylfa wledig-drefol yn rhagfynegydd annibynnol ond cymedrol o bwysau plentyndod yng Nghymru, gyda phlant trefol ychydig yn llai tebygol o fod dros bwysau neu'n ordew ac ychydig yn fwy tebygol o fod dan bwysau (Gwahaniaethau Trefol-Gwledig mewn Statws Pwysau Plentyndod yng Nghymru: Mewnwelediadau o Raglen Mesur Plant 2023/24, Ouerghi et al, yn aros i'w gyhoeddi). Mae hyn yn cefnogi'r angen am wasanaethau atal a rheoli pwysau sy'n sensitif i gyd-destun lleol, heb drin gwledigrwydd fel yr unig sbardun.

## Bwyd, gweithgareddau ac amgylcheddau bob dydd

Fel y dangosir yn Rhannau 1 a 2, mae pwysau iach yn cael ei siapio gan y mannau lle mae pobl yn byw. Mae'r dystiolaeth fanwl o fynediad at fwyd a theithio llesol wedi'i nodi'n gynharach yn yr adroddiad. Y ffocws yma yw sut y gall partneriaid droi'r dystiolaeth honno yn weithredu ymarferol trwy gymorth blynyddoedd cynnar, amgylcheddau bwyd iachach, cyfleoedd mwy diogel ar gyfer symud bob dydd ac atal lleol cydgysylltiedig.

## Y Blynyddoedd cynnar a dylanwadau teuluol

